Swansea University Prifysgol Abertawe
Student Life
Bywyd Myfyrwyr
Rhifyn Haf | 1
Chwiliwch:CampusLife

# Newyddion GO!

**| Darganfod - Cyfoethogi -Cysylltu |**

## Annwyl Ddarllenwr

Croeso i'n Rhifyn yr haf 2025! Gobeithiwn eich bod wedi cael amser gwych yn Abertawe hyd yn hyn! Gall yr haf yn Abertawe fod yn newidiol, ond gobeithiwn y gallwch chi fwynhau'r holl draethau a mannau awyr agored hardd eraill sydd gan y ddinas hon i'w cynnig!

Dylai'r cylchlythyr hwn eich helpu i gael mwy o wybodaeth am y mathau o ddigwyddiadau rydym yn eu cynnig, ein cynllun gwirfoddoli sydd ar gael a'r gwasanaethau rydym yn eu cynnig!

Mae ein gweithgareddau hefyd yn cael eu cynnal drwy gydol y flwyddyn gyda theithiau i ddinasoedd amrywiol yn y DU, nosweithiau ffilm, digwyddiadau cymdeithasol a mwy!

Os hoffech chi awgrymu digwyddiad, e-bostiwch gosocial@swansea.ac.uk - rydyn ni'n gwerthfawrogi'ch syniadau!

*Emma, Fiona, Abbie, Nick, Nic, Mike, Caroline, Beth*

VISA Advice



## VISA Advice Team

Yma i helpu

Mae tîm yma i helpu a chefnogi myfyrwyr rhyngwladol gydag ymholiadau academaidd ac anacademaidd.Yn benodol, gallwn ni helpu gyda fisâu a mewnfudo, cwestiynau am deuluoedd rhyngwladol ac agweddau diwylliannol ar fyw yn y Deyrnas Unedig. Rydym hefyd yn darparu cyfleoedd i ryngweithio'n gymdeithasol a meithrin cymuned drwy ein rhaglen GO!

Cofiwch - rydyn ni yma i'ch cefnogi! Ewch i'n gwefan i archwilio ein tudalennau cyngor ac arweiniad, yn ogystal â manylion am sut gallwch chi gysylltu â ni drwy e-bost, Sgwrs Fyw, gweminarau ar bynciau penodol, neu weithgareddau ar-lein eraill: www.swansea.ac.uk/international-campuslife/

Hefyd mae gennym gyfrif Instagram lle gallwch ein tagio ni a phan fyddwch chi'n mynd i'n digwyddiadau, cadwch lygad am luniau o'n myfyrwyr yn mwynhau Prifysgol Abertawe! https://www.instagram.com/campuslifesu/

**Beth sy'n digwydd?**


Bydd ein rhaglen gymdeithasol yn llawn gweithgareddau cyffrous i wneud eich gwanwyn yn fwy pleserus byth!
Dyma restr o ychydig o'n digwyddiadau sydd ar ddod:

- 9 Mehefin - Digwyddiad Cymdeithasol GO!: Dylunio Cap Graddio
- 12 Mehefin - Digwyddiad Cymdeithasol GO!: Crefftau ar Lan y Môr
- 19 Mehefin - Digwyddiad Cymdeithasol GO!: Cwrdd a Chymdeithasu - Gŵyr
- 20 Mehefin - Taith GO!: Gŵyr
- 27 Mehefin - Ffilm GO!: Carol
- 1 Gorffennaf - Taith Bwyta GO!: Hufen iâ Joe's
- 5 Gorffennaf - Digwyddiad Cymdeithasol yr Haf Abertawe - Sioe Awyr
- 11 Gorffennaf - Ffilm GO!: Paddington
- 17 Gorffennaf - Digwyddiad Cymdeithasol GO!: Gwledd o Gemau Bwrdd
- 22 Gorffennaf - Taith GO!: Ynys y Bari
- 25 Gorffennaf - Ffilm GO!: The Festival
- 29 Awst - Digwyddiad Cymdeithasol GO! - Caerffili
- 30 Awst - Taith GO! – Caerffili

Gellir cadw lle ar y rhain i gyd yn: https://university-swansea.native.fm/group/5010/international-campus-life

Rydym hefyd yn cynnal ein... Anturio Abertawe

Cadwch lygad am ddigwyddiadau Cymdeithasol yr Haf Abertawe yma: https://university-swansea.native.fm/group/5018/campus-life-new



## Cipolwg yn ôl ar Raglen

### Taith GO!: Dan-yr-Ogof

Ein teithiau GO! i ddinasoedd mawr y DU yw digwyddiadau mwyaf poblogaidd Rhyngwladol@BywydCampws bob amser. Y tro hwn aethon ni i Ogofâu cenedlaethol Cymru, Dan-yr-Ogof!

"Roedd Ogof yr Eglwys Gadeiriol yn syfrdanol!"

"Profiad ogof unigryw yng Nghymru...mae gan yr ogof hanes a bywyd hir ac eang"

"Roedd y safle'n ddiddorol iawn!"

# Newyddion GO!

Rhifyn Haf | 2

## Dewch i adnabod Tîm GO!

Ym mhob rhifyn, byddwn ni'n cwrdd ag aelod arall o dîm GO!

Eich enw: Shivani Patel



Eich cwrs: Ffarmacoleg Feddygol

Eich cenedligrwydd: Prydeinig

**Pam y dewisaist astudio ym Mhrifysgol Abertawe?**

Mantais fwyaf astudio yn Abertawe yw'r ffordd o fyw. Fel un sy'n dod o Lundain, dwi'n gwerthfawrogi'r mynediad at weithgareddau awyr agored sy'n fwy anodd eu cael yn y ddinas. Yma yng Nghymru, gallaf fynd am heic ar y penwythnosau neu fynd ar daith i'r Mwmbwls i fwynhau'r traeth.

**Pam penderfynaist ti wirfoddoli fel aelod o dîm GO!?**

Yn ôl yn Llundain, roeddwn yn gwirfoddoli pryd bynnag roedd gennyf y cyfle, felly pan ddes i Abertawe a darganfod yr ystod eang o weithgareddau sydd ar gael gan GO!, roedd yn rhaid i mi gymryd rhan. Yr hyn sy'n gwneud GO! yn wahanol yw nad yw'n teimlo fel gwirfoddoli yn unig - mae'n teimlo fel bod yn rhan o gymuned. Mae pawb yn dod at ei gilydd, yn cefnogi ei gilydd, ac yn mwynhau'r hyn rydym yn ei wneud, sy'n gwneud y profiad hyd yn oed yn fwy ystyrlon.

**Beth yw dy brif ddyletswydd fel aelod o dîm GO! yn dy farn di?**

Yn bennaf rwy'n cefnogi myfyrwyr rhyngwladol ar y campws, gan eu helpu i deimlo'n rhan o'r gymuned ac wedi'u croesawu. Mae llawer ohonynt yn wynebu heriau megis rhwystrau iaith neu ddim yn gwybod beth sydd gan y DU i'w gynnig. Fy rôl yw creu cyfleoedd iddynt archwilio mwy am fywyd yn y DU – boed hynny drwy deithiau a drefnir neu weithgareddau cymdeithasol - ac i ddarparu gofod diogel, cyfeillgar lle gallan nhw gysylltu ag eraill a theimlo'n rhan o gymuned.

**Beth sy'n gwneud aelod da o dîm GO!?**

Rhywun sy'n hawdd mynd ato, dibynadwy, a rhywun sydd wirioneddol yn ymrwymedig i helpu eraill i deimlo bod croeso cynnes a chymorth iddynt. Rwy'n amyneddgar ac mae gen i ymdeimlad cryf o gyfrifoldeb ym mhopeth rwy'n ei wneud, ac rydw i bob amser yn ceisio cyflawni unrhyw dasg hyd eithaf fy ngallu.

**Pam rwyt ti'n meddwl y dylai myfyrwyr eraill gyflwyno cais i ymuno â thîm GO!?**

Mae ymuno â Thîm GO! yn gyfle gwych, yn enwedig i fyfyrwyr rhyngwladol. Mae'n fwy na gwirfoddoli yn unig - mae'n gyfle i ddod yn rhan o gymuned gefnogol, cwrdd â phobl o gefndiroedd amrywiol, a gwneud gwahaniaeth go iawn i brofiad prifysgol pobl eraill. Mae hefyd yn ffordd wych o integreiddio i fywyd ar y campws, archwilio lleoedd newydd a gwneud cyfeillgarwch gydol oes.

## Rhaglen Wirfoddoli Tîm GO!

Mae gwirfoddoli'n ffordd wych o gwrdd â phobl, meithrin sgiliau cyflogadwyedd a chymryd rhan yn y gymuned.
Os hoffech chi wirfoddoli fel aelod o dîm GO! ac eisiau mwy o wybodaeth, cofrestrwch am gyfrif Discovery a chofrestru i fod yn Wirfoddolwr tîm GO! yma: https://volunteering.discoverysvs.org/volunteers/opportunity/10193151 neu e-bostiwch gosocial@swansea.ac.uk.



**AR AGOR NAWR**

Y LOLFA GROESO GLOBAL LOUNGE

Y TU MEWN I HARBWR AR LAWR CYNTAF TŶ FULTON

## Gwneud y mwyaf o'r haf yn Abertawe:

- Teithiau cerdded o gwmpas Abertawe - mae yna lawer o deithiau cerdded hardd ar hyd yr arfordir ac ardaloedd canolog yn Abertawe. Mae yna deithiau cerdded natur hyfryd gan gynnwys: Taith gerdded gylchol Coed Cwm Penllergaer 2.3km, Taith gerdded gylchol Coedwig Penllergaer 6.4km, Cronfa Ddŵr Lliw Isaf - Planhigfa Brynllefrith 9.7km neu gallwch chi gerdded arfordir cyfan Abertawe!
- Mae Swansea Outdoor Adventures ger Cronfa Ddŵr Lliw Isaf yn cynnig gwersi ac yn llogi offer! Mae'r SUP Hut ar Stryd Francis hefyd yn llogi offer padl-fyrddio ac yn cynnig gwersi!
- Gallwch chi ddianc rhag y gwres wrth fwynhau heulwen Abertawe gyda Hufen iâ Joe's blasus! Yn adnabyddus am ei blas fanila ffres, mae rysáit gyfrinachol Joe's, yn agosach at gelato ffres o'r Eidal yn hytrach na hufen iâ.
- Syrffio - Mae rhai mannau syrffio poblogaidd ar benrhyn Gŵyr yn cynnwys Langland, Caswell, Pobbles, Oxwich, Horton/Porth Einon a Llangynydd. Mae ysgol Syrffio yn Caswell sy'n gartref i ysgol syrffio Surfability UK sydd â byrddau syrffio i bobl ag anghenion ychwanegol.
- Beiciau – gallwch rentu beic o gwmpas Abertawe a thalu gyda'ch ffôn! Ceir 5 gorsaf ddocio ar hyd ehangder hyfryd Bae Abertawe gan gynnwys dau gampws y Brifysgol, y Mwmbwls a safle Parcio a Theithio Ffordd Fabian!

**hapus** The Student Life Toolkit
Pecyn Cymorth Bywyd Myfyrwyr

Mae ein Pecyn Cymorth Bywyd Myfyrwyr ar-lein, Hapus, yn cynnwys gwybodaeth am sut i ymdopi ag ysgytwad diwylliannol, ac mae'n rhestru'r llu o dimau ar draws y Brifysgol a all eich cefnogi a'ch helpu i ymgartrefu yma! Gallwch chi gael mynediad at y cwrs drwy eich cyfrif Canvas